Llywodraeth Cymru
Welsh Government

11 Awst 2021

Annwyl Gyfeillion

Rwyf yn ysgrifennu atoch gyda diweddariad ar gymorth Gofal Sylfaenol i raglen frechu Covid-19 yma yng Nghymru.

Mae Cynllun Gofal Sylfaenol ar gyfer Imiwneiddio rhag COVID-19 (PCCIS) ar gyfer brechlynnau Rhydychen/Astra Zeneca, Moderna a Pfizer ar waith ers tro bellach, gyda'r cyntaf yn cael ei gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2020 ac yn fwyaf diweddar PCCIS Pfizer ar 29 Gorffennaf 2021. Drwy gydol y naw mis diwethaf, mae darparwyr Gofal Sylfaenol wedi chwarae rôl allweddol yn y rhaglen frechu sydd wedi arwain y byd; gan gefnogi'r nod o frechu cynifer o bobl â phosibl mor gyflym â phosibl, yn ddiogel a chan leihau gwastraff.

Mae modelau cynllunio a chyflawni wedi parhau i esblygu wrth i ragor o ddata a chanllawiau ddod i'r amlwg o ran nodweddion y brechlyn a'r bobl â'r risg fwyaf o ddal Covid-19.

Mae Byrddau Iechyd a chontractwyr gofal sylfaenol wedi parhau i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg, gan sicrhau bod cyflymder a llwyddiant y rhaglen wedi parhau.

Darparu pigiadau atgyfnerthu a dosau olynol

Gan adeiladu ar yr ymgysylltu cadarnhaol a'r hyn a ddysgwyd hyd yn hyn, cafwyd trafodaethau ynghylch darparu pigiadau atgyfnerthu yn ystod yr hydref a chan edrych ymlaen at ddosau olynol y gallai fod ei hangen. Heddiw, rwyf yn cyhoeddi'r Cyfarwyddydau Deddfwriaethol, ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n sefydlu cynllun newydd sef Gwasanaeth wedi'i Gontractio Gofal Sylfaenol: Imiwneiddio (PCCS:I) ar gyfer cyflenwi brechlynnau Covid-19.

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff • CF10 3NQ

Daw Cyfarwyddydau PCCS:I i rym ar 18 Awst 2021. Bydd Byrddau Iechyd wedyn yn defnyddio'r mecanwaith contractio cenedlaethol hwn, sy'n adlewyrchu yn fras y trefniadau sydd eisoes yn bodoli o gan y Cynlluniau PCCIS, lle maent yn bwriadu cynnwys contractwyr gofal sylfaenol yn y gwaith o gyflenwi brechlynnau Covid-19. Caiff pob un o'r tri Chyfarwyddyd PCCIS sydd mewn grym ar hyn o bryd eu dirymu ac fe ddaw'r trefniadau a wnaed o dan y Cynlluniau hynny i ben ar yr un dyddiad. Er hynny, bydd unrhyw hawliadau heb eu talu ar gyfer brechlynnau a weinyddir cyn 18 Awst 2021 o dan y trefniadau hynny yn dal i gael eu talu yn unol â'r cyfarwyddydau a'r Fanyleb PCCIS.

Fel oedd yn wir gynt o dan drefniadau PCCIS, mae PCCS:I yn galluogi holl ddarparwyr gofal sylfaenol i fod yn rhan o'r gwaith cyflenwi, yn ddarostyngedig i gynllunio ac anghenion y byrddau iechyd a fydd yn parhau i gael eu penderfynu yn lleol.

Mae'n ddefnyddiol hefyd dynnu sylw at rai newidiadau allweddol, sy'n cymryd i ystyriaeth datblygiadau dysgu a rhaglenni hyd yn hyn, sydd wedi'u hymgorffori yn y mecanwaith PCCS:I newydd:

- Cyn darparu unrhyw wasanaethau o dan gynllun PCCS:I, mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno a chytuno ar gynllun â'u Bwrdd Iechyd sy'n nodi sut y caiff cyfrannu at gyflenwi brechlyn COVID-19 ei reoli yn erbyn mynediad at wasanaethau craidd. Bydd hyn yn cynnig gwell lefel o sicrwydd na chaiff yr olaf ei lesteirio ac na fydd mwy o risg y caiff darparwyr eu gorlethu.
- Mae'r defnydd o Graidd System Imiwneiddio Cymru (WIS) ar gyfer amserlennu apwyntiadau'n yn cael ei orfodi er mwyn cefnogi system archebu ar-lein a fydd ar gael maes o law.
- Bydd trefniadau diwygiedig ar gyfer monitro ac adrodd ar dymheredd oergelloedd yn sicrhau bod brechlynnau'n cael eu storio yn ddiogel, gan hwyluso ymateb cyflymach os bydd problemau'n codi.
- Cynhwysir canllawiau diweddaraf JCVI ar frechu plant a charfannau cymwys ar gyfer cael dos atgyfnerthu yn yr Atodiadau i'r Fanyleb. .

Gan barhau â'm nod o sicrhau cydraddoldeb ac i ddigolledu darparwyr yn briodol, rydym wedi cytuno ar daliad o £12.58 ar gyfer pob brechlyn a roddir a ffi weinyddu bellach o £400 i bob 1,000 o frechlynnau a roddir.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth ddiweddaraf hon yn ddatblygiad i'w groesawu o ran sut y mae Gofal Sylfaenol yn cefnogi'r rhaglen genedlaethol hon at y dyfodol, a hoffwn ddiolch unwaith eto i chi i gyd am eich cyfraniad cadarnhaol hyd yn hyn.

Mae eich cymorth parhaus wrth gyflenwi'r brechlyn i bobl Cymru mewn modd diogel ac amserol yn sylweddol ac mae pob rhan o'r system yn parhau i'w groesawu.

Yn gywir

Alex Slade

Dirprwy Gyfarwyddwr- Yr Is Adran Gofal Sylfaenol

Deputy Director – Primary Care Division

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
• Health and Social Services Group
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff • CF10 3NQ